Rhagarweiniad

1. Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr

1.1 Gellir galw Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr i benderfynu unrhyw fater.

2. Cynnig o Ddiffyg Hyder

2.1 Mewn Ymddiriedolwr:
Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 62), mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr i basio Cynnig o Ddiffyg Hyder mewn Ymddiriedolwr, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.
2.2 Mewn Swyddog Llawn Amser neu Wirfoddol:
Er mwyn pasio Cynnig o ddiffyg hyder mewn Swyddog Llawn-amser neu Wirfoddol, mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

3. Polisi

3.1 Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 45) mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr i gytuno ar bolisi a gyfeiriwyd at Bleidlais yr Holl Fyfyrwyr gan fwrdd yr Ymddiriedolwyr, Pwyllgor Gwaith yr Undeb, Cyfarfod o'r Cynulliad, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu ddeiseb ddiogel, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

4. Cyfrifoldebau

4.1 Y Swyddog Etholiadau, neu ei Ddirprwy, a hwythau wedi'u penodi'n unol ag is-ddeddfau'r etholiadau, fydd yn gyfrifol am weinyddu Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr a'i chynnal yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau a disgrifir yn fanwl yn y Cyfansoddiad (cymal 44-47).

5. Cyhoeddi

5.1 Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi bod Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr wedi cael ei galw, ynghyd â manylion pam y gwnaed hynny, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
5.2 Trefnir Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr yn unol â'r amserlen ganlynol; y Dirprwy Swyddog Etholiadau sy'n gyfrifol am benderfynu'r union ddyddiadau ar gyfer hyn:

a. Cyhoeddi'r cynnig, dyddiad(au) ar gyfer Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr a dyddiad cyfarfod, sy'n agored i'r holl aelodau, i esbonio a thrafod y materion sydd dan sylw, a gynhelir heb fod yn hwyrach na dechrau'r pleidleisio.
b. Os yw'r mater yn un dadleuol, bydd y cyfarfod yn enwebu dau asiant a fydd yn gyfrifol am redeg yr ymgyrch "Pleidleisiwch Ie" a'r ymgyrch "Pleidleisiwch Na". Bydd y naill asiant a'r llall yn derbyn lwfans cyhoeddusrwydd gan UMAber sy'n cyfateb i'r lwfans y cytunwyd arno ar gyfer etholiadau swyddogion sy'n ymddiriedolwyr.
c. Cyhoeddi'r cynnig a'r cwestiwn sydd i'w ofyn a rhoi cyhoeddusrwydd pellach i ddyddiadau pleidleisio.

6. Pleidleisio

6.1 Bydd pob aelod yn gymwys i bleidleisio.
6.2 Caiff manylion yr etholiadau a'r broses bleidleisio eu cyhoeddi drwy wefan UMAber, ac unrhyw le arall a gaiff ei benderfynu gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.
6.3 Fel arfer, cynhelir y bleidlais yn electronig.

6.4 Dylai'r opsiynau ganiatáu i Aelodau bleidleisio naill ai o blaid, yn erbyn neu ymatal ar bob cynnig.

7. Datganiad

7.1 Caiff canlyniadau Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr eu cyhoeddi gan y Swyddog Etholiadau pan fydd y cyfrif ar gyfer pob un wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.
7.2 Gosodir canlyniadau Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb o fewn un diwrnod gwaith o'r cyfrif.